Annwyl Riant / Warchodwr,

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd i'ch hatgoffa am gynlluniau ailagor Ysgol Y Strade.

Yn ystod y 3 wythnos cyn gwyliau'r haf fe wnaeth y disgyblion a staff ymateb yn wych i'n cynlluniau ailagor. Roedd yn hyfryd cael disgyblion a staff yn ôl yn yr ysgol, er ei fod o dan amodau gwahanol iawn i'r rhai rydyn ni'n eu profi fel arfer.

Yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Addysg ar Orffennaf y 9fed bod pob ysgol yng Nghymru yn ailagor yn llawn ym mis Medi, mae'r ddogfen yma yn rhannu gwybodaeth gyda chi fel rhieni a disgyblion am drefniadau Y Strade.

Medi 2020:

Fel y dywedwyd yn gynharach, mae'r Ysgrifennydd Addysg wedi cyhoeddi y bydd ysgolion yng Nghymru yn ailagor yn llawn ym mis Medi. Er mwyn i ni ailagor mewn modd diogel, effeithiol ac effeithlon, rydym yn trefnu bod disgyblion Y Strade yn dychwelyd yn raddol yn ystod pythefnos cyntaf Tymor yr Hydref.
Gan nad oeddem yn gallu parhau â'n cynlluniau trosglwyddo arferol yn ystod tymor yr Haf, bydd croesawu ein disgyblion Blwyddyn 7 newydd yn un o'n prif flaenoriaethau ym mis Medi. Rydym wedi penderfynu dyrannu nifer o ddyddiau ar ddechrau'r flwyddyn i ddisgyblion Blwyddyn 7 ddod yn gyfarwydd â'r ysgol. Dyma'r dyddiadau pwysig i'w cofio:

Wythnos 1:

Dydd Mawrth Medi'r 1af 2020 - staff yn unig.
Dydd Mercher Medi'r 2il 2020 - staff yn unig.
Dydd Iau Medi'r 3ydd 2020 - Disgyblion Blwyddyn 7 a 12 yn unig.
Dydd Gwener Medi'r 4ydd 2020 - Disgyblion Blwyddyn 7 a 12 yn unig.
Bydd rhai o'n myfyrwyr Blwyddyn 12 yn cael eu dewis fel mentoriaid ar gyfer dosbarthiadau Blwyddyn 7 a byddant yn gweithio'n agos gyda nhw trwy gydol y flwyddyn.

Wythnos 2:

Dydd Llun Medi'r 7fed 2020 - blynyddoedd 7, 11, 12 a 13
Dydd Mawrth Medi'r 8fed 2020 - blynyddoedd 7, 11, 12 a 13
Dydd Mercher Medi'r 9fed 2020 - blynyddoedd 7, 8, 9, 12 a 13
Dydd Iau Medi'r 10fed 2020 - blynyddoedd 7, 10, 11, 12 a 13
Dydd Gwener Medi'r 11eg 2020 – blynyddoedd 7, 8, 9, 10 a 11

Disgwylir i bob disgybl fod yn bresennol o ddydd Llun Medi'r 14eg ymlaen.

Grwpio disgyblion

Er mwyn cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru a sicrhau cydbwysedd rhwng lleihau risg isel a darparu profiadau eang i ddisgyblion, rydym wedi addasu'r ffordd rydym yn grwpio disgyblion. Fe fydd hyn hefyd yn ein galluogi i wahaniaethu yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion bob dysgwr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y canllawiau isod i gynorthwyo ysgolion wrth grwpio disgyblion:

"Mae grwpiau cyson yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint drwy gyfyngu ar nifer y dysgwyr a'r staff a fydd yn cael cyswllt â'i gilydd i ddim ond y rheini a fydd yn y grŵp."

"Mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yn y grwpiau oedran hŷn yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5, mae'n debyg y bydd angen i'r grwpiau cyswllt fod yn grwpiau blwyddyn er mwyn i'r ysgolion allu cyflwyno'r ystod lawn o bynciau'r cwricwlwm ac i ddysgwyr gael addysg arbenigol."

Gallwch ddarllen y ddogfen llawn drwy ddilyn y linc yma.

Yn sgil hyn, mae'r ysgol wedi penderfynu grwpio disgyblion fel y ganlyn;

Blwyddyn 7

- Dosbarthiadau wedi bandio – felly disgyblion yn aros o fewn yr un grwp cyswllt ar gyfer pob sesiwn cofrestru a phob gwers.

Blwyddyn 8

- Dosbarthiadau wedi bandio – felly disgyblion yn aros o fewn yr un grwp cyswllt ar gyfer pob sesiwn cofrestru a phob gwers. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r arfer ar gyfer blwyddyn 8. Er dweud hyn, bydd y disgyblion yn gyfarwydd iawn â'r drefn yma o ganlyniad i'w profiadau yn ystod blwyddyn 7.

Blwyddyn 9

- Bydd y disgyblion yn mynychu dosbarthiadau yn ôl eu cyfrwng iaith ar gyfer Mathemateg a Gwyddoniaeth (wedi setio). Yna bydd y digyblion wedi bandio ar gyfer pob un o'u pynciau eraill – felly yn aros o fewn yr un grwp cyswllt ar gyfer pob sesiwn arall.

Blwyddyn 10/11

- Er mwyn sicrhau darpariaeth addas ar gyfer cyrsiau TGAU ni fydd unrhyw newid i'r drefn arferol.

Blwyddyn 12/13

- Er mwyn sicrhau darpariaeth addas ar gyfer cyrsiau UG/Lefel A ni fydd yn unrhyw newid i'r drefn arferol.

Yn amlwg, yn sgil canllawiau'r Llywodraeth bydd angen cyfyngu ar natur y ddapariaeth mewn rhai pynciau mwy 'ymarferol' ar draws y cwrwicwlwm gan gynnwys Technoleg, Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol, Cerdd. Mae hyn hefyd yn cynnwys gweithgareddau all-gyrsiol.

Y Diwrnod Ysgol

Bydd Ysgol Y Strade yn cyflwyno strwythur newydd i'r diwrnod ysgol o fis Medi 2020 ymlaen. Ni fydd unrhyw newid i'r amseroedd cychwyn a gorffen, fodd bynnag, bydd y diwrnod ysgol 'newydd' ei hun yn cynnwys chwe gwers 50 munud gydag amseroedd cinio anghyfnewidiol ar gyfer disgyblion iau a hŷn. Gweler y tabl isod ar gyfer amseriad manwl:

Amser	Bl. 7-8 / 12-13	Bl. 9-11
8.30	Cofrestru	Cofrestru
9.05	Gwers 1	Gwers 1
9.55	Gwers 2	Gwers 2
10.45	Egwyl	Egwyl
11.05	Gwers 3	Gwers 3
11.55	Gwers 4	Gwers 4
12.45	Cinio	Gwers 5
1.35	Gwers 5	Cinio
2.25	Gwers 6	Gwers 6
3.15	Diwedd y dydd	Diwedd y dydd

Ymbellhau cymdeithasol

Bydd disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol lynu at reolau ymbellhau cymdeithasol a byddwn yn cefnogi ein disgyblion i ddeall beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw, eu cyfoedion, a'u hathrawon. Bydd arwyddion ymbellhau cymdeithasol o amgylch yr ysgol yn helpu i atgoffa pawb o'r disgwyliadau hyn. Bydd yr ysgol yn esbonio systemau mynedfeydd/allanfeydd sy'n lleihau'r symud o amgylch yr adeilad a nifer y cysylltiadau i'r disgyblion ym mis Medi. Rydym yn gofyn yn garedig i chi fel rhieni i barchu rheolau ymbellhau cymdeithasol wrth ollwng a chasglu eich plentyn o safle'r ysgol, gan fod angen i ni gymryd pob mesur i leihau nifer y bobl sy'n ymgynnull y tu allan i'r ysgol. Er diogelwch pawb, bydd ymwelwyr â'r ysgol yn cael eu monitro'n llym a dim ond am resymau hanfodol/brys y cânt eu caniatáu. Gofynnwn yn garedig i unrhyw gyswllt gyda'r ysgol gael ei wneud dros y ffôn yn y lle cyntaf.

Trafnidiaeth ysgol Dechrau / Diwedd y dydd

Yr awdurdod lleol sydd yn gyfrifol am drafnidiaeth yr ysgol. Rydym yn disgwyl bod y system drafnidiaeth yn cael ei gweithredu yn ôl yr arfer ym mis Medi.

Ni fydd hawl gan unrhyw riant i ddod ar y safle i gasglu eu plant ar ddiwedd y dydd. Hoffwn eich hatgoffa taw Bae bysys y Coleg yw man casglu disgyblion. Fe fydd gatiau'r cae ar agor er mwyn i ddisgyblion cerdded yn ddiogel ar hyd llwybr y cae i gael eu chasglu

Golchi dwylo

Bydd yn ofynnol i ddisgyblion a staff olchi/diheintio eu dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Mae sinciau dros dro ger yr mynedfeydd ar gyfer golchi dwylo. Mae gorsafoedd diheintio dwylo y tu-allan i bob ystafell ddysgu ac o gwmpas yr ysgol. Bydd cyfarwyddiadau pendant iawn yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion o ran golchi dwylo a bydd disgwyl iddynt sicrhau eu bod yn gwneud hynny – cyn gadael y cartref, wrth gyrraedd yr ysgol, ar ôl defnyddio'r toiled, ar ôl egwyl a chinio ac unrhyw ymarfer corff, cyn gadael yr ysgol. Mae cadachau glanhau (wipes) a hancesi ymhob ystafell ddosbarth.

Glanhau

Bydd cyfundrefnau glanhau manwl iawn yn yr ysgol, gyda glanhau arwynebau y cyffyrddir arnynt yn rheolaidd, dolenni drysau, toiledau ac ati trwy gydol y dydd. Bydd y mwyafrif o'r drysau yn cael eu cadw ar agor er mwyn sicrhau nad oes angen eu cyffwrdd.

Gwisg Ysgol

Disgwylir i bob disgybl wisgo **gwisg ysgol llawn** pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Ar ddiwrnodau pan fydd gwers addysg gorfforol/chwaraeon ar yr amserlen bydd angen i'r disgyblion wisgo gwisg swyddogol yr adran cyn cyrraedd yr ysgol. Ni fydd modd defnyddio'r ystafelloedd newid ar hyn o bryd. Mae'n bosib y bydd y cyngor ynghylch gwersi addysg gorfforol yn newid yn ystod y flwyddyn academaidd, a bydd yr ysgol yn rhannu'r wybodaeth yma gyda chi yn ôl yr angen.

Amser cinio ac egwyl

Yn sgil y newid i strwythur y dydd, bydd amseroedd cinio y disgyblion yn wahanol, gyda chlystyrau blwyddyn gwahanol yn derbyn cyfnodau cinio ar adegau gwahanol. Bydd cyfrifoldeb ar bob disgybl i sicrhau ymbellhau cymdeithasol yn ystod y cyfnodau hynny.

Arlwyo

Ni fydd y ffreutur ar gael i ddisgyblion am gyfnod (o leiaf y pythefnos cyntaf). Felly, bydd angen i bob disgybl ddod â phecyn cinio, byrbrydau a diod eu hunain i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr PYDd, gan fod taliadau uniongyrchol yn parhau ar hyn o bryd. Os na fydd pecyn bwyd gan y plentyn yna bydd yr ysgol yn cysylltu â chi er mwyn cytuno ar drefniadau priodol. Fe fydd yr ysgol yn cyfathrebu unrhyw newidiadau gyda chi maes o law.

Yn ychwanegol i hyn, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod gan yr ysgol fanylion cyswllt cywir eich plentyn. Os oes unrhyw newid wedi bod i'ch manylion personol gofynnwn i chi gysylltu gyda'r ysgol yn syth ar y cyfeiriad ebost swyddfa@ysgolystrade.org.

Diolch eto am bob cefnogaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Geoff Evans
Pennaeth.

Dear Parent / Guardian

I am writing to you at the beginning of a new academic year to remind you of our arrangements for the re-opening of the school.

I must take this opportunity again to thank and praise both pupils and staff for such a positive response to our re-opening plans during the three-week window prior to the summer break. It was wonderful to have pupils and staff back in school, albeit under very different conditions to those that we normally experience.

Following the Education Secretary's announcement on the 9th of July that all schools in Wales will re-open fully in September, please see below some further information regarding this re-opening phase.

September 2020:

As stated earlier, the Education Secretary has announced that schools in Wales will re-open fully in September. In order that we re-open in a safe, effective and efficient manner, we are staggering the full return of pupils during the first two weeks of the Autumn Term.
As we were unable to continue with our usual transition plans during the Summer term, welcoming our new Year 7 intake will be one of our main priorities in September. We have decided to allocate a number of days at the start of the year for Year 7 pupils to become accustomed to the school.
These are the important dates to remember:

Week 1:

Tuesday the 1st of September 2020 – staff only.
Wednesday the 2nd of September 2020 – staff only.
Thursday the 3rd of September 2020 – Year 7 and 12 pupils only.
Friday the 4th of September 2020 – Year 7 and 12 pupils only.
Some of our Year 12 students will be chosen as mentors for Year 7 classes and will work closely with them throughout the school year.

Week 2:

Monday the 7th of September 2020 – years 7, 11, 12 a 13
Tuesday the 8th of September 2020 – years 7, 11, 12 a 13
Wednesday the 9th of September 2020 – years 7, 8, 9, 12 a 13
Thursday the 10th of September 2020 – years 7, 10, 11, 12 a 13
Friday the 11th of September 2020 – years 7, 8, 9, 10 a 11

All pupils will be expected to attend from **Monday the 14th of September** onward.

Grouping Pupils

In order to accord with Welsh Government's regulations and to ensure an appropriate balance between reducing risk whilst providing a balanced curriculum and broad experiences for our pupils, we have had to adjust the way in which we group pupils. This will also assist us in differentiating in the most effective way possible so as to meet the needs of every learner.

Welsh Government have provided the guidance below with regard to the grouping of pupils:

"Consistent groups help reduce the risk of transmission by limiting the number of learners and staff in contact with each other to only those within the group."

"In secondary schools, particularly in the older age groups at Key Stages 4 and 5, the contact groups are likely to need to be the size of a year group to enable schools to deliver the full range of curriculum subjects and for learners to receive specialist teaching."

You can read the whole document by following this link.

As a result of the above, the school have decided to group pupils as follows:

Year 7

- Classes will be banded – so pupils will remain within the same contact group for all registration periods and lessons.

Year 8

- Classes will be banded – so pupils will remain within the same contact group for all registration periods and lessons. This is slightly different to our usual approach in year 8. Having said that, pupils will be very used to this format as a result of their experiences during year 7.

Year 9

- Pupils will be set in classes for Mathematics and Science based on their language choice. All other subject classes will be banded – so pupils will remain within the same contact group for all registration periods and those other lessons.

Year 10/11

- In order to ensure appropriate provision for GCSE courses, there will not be any change to the usual format at Key Stage 4.

Year 12/13

- In order to ensure appropriate provision for AS/A-Level courses, there will not be any change to the usual format at Key Stage 5.

Obviously, as a result of Welsh Government guidance there will be some restriction on the type of provision in certain practical subjects across the curriculum, including Technology, Science and P.E. This will also affect extra-curricular activities.

The School Day

Ysgol Y Strade will introduce a new structure to the school day from September 2020 onwards. There will be no change to the start and end times, however the 'new' school day itself will comprise of six 50-minute lessons with staggered lunch times for younger and older pupils. Please see the table below for detailed timings:

Time	Bl. 7-8 / 12-13	Bl. 9-11
8.30	Registration	Registration
9.05	Lesson 1	Lesson 1
9.55	Lesson 2	Lesson 2
10.45	Break	Break
11.05	Lesson 3	Lesson 3
11.55	Lesson 4	Lesson 4
12.45	Lunch	Lesson 5
1.35	Lesson 5	Lunch
2.25	Lesson 6	Lesson 6
3.15	End of the day	End of the day

Social distancing: All members of the school community will need to self-regulate and keep their distance within groups and to adhere to social distancing rules regarding each other and adults. We will support your child in ensuring their understanding of what this means for them, their peers, and their teachers. Signage around the school will help remind everyone of these expectations and pupils will be reminded continuously that these must be followed. Entry and exit routes will be shared with pupils to reduce movement and contact between students and staff, thus limiting the movement of pupils around the school during the day. We kindly ask parents to respect social distancing rules when dropping off and collecting your child from the school campus, as it is necessary to take all measures to reduce the number of people congregating outside school. We ask that any contact with the school is made via telephone in the first instance.

School Transport – Beginning / End of the Day

The Local Authority is responsible for school transport. We expect school transport services to be fully operational in the usual way in September.

Parents will not be allowed on to the school site to collect their children at the end of the school day. We would remind you that the Coleg Sir Gar (CSG) Bus Bay is the official collection point. The school gates will be open to allow pupils to walk safely along the path on the school grounds to the college to be collected.

Hand washing

Pupils and staff will be required to wash / sanitize their hands thoroughly and regularly throughout the day. Sinks are set up at various points close to entrances to the school. Pupils will be given very clear instructions on hand washing and will be expected to do so - before leaving home, when arriving at school, after using the toilet, after break and lunch and any exercise, before leaving school. Outside every classroom, there are dispensers for hand sanitizer containing at least 60% alcohol and in every classroom cleaning equipment such as sanitizing wipes and tissues.

Cleaning

The school will have very comprehensive cleaning regimes, with regular cleaning of touched surfaces, door handles, shared areas, toilets etc. throughout the day. Doors will remain open as much as possible to avoid having to touch the handles.

School Uniform

All pupils will be expected to wear **full school uniform** when they return to school in September.

However, on any days where pupils have PE on their timetable, pupils will need to wear their official school PE kit to school. The changing rooms will not be available at present. Instructions from the PE department may change during the year, and we will share that information with you accordingly.

Break Time and Lunch Time

Due to the changes to the school day, there is a split lunchtime, with pupils from different year groups having lunch at different times (see above). Pupils will be responsible for ensure that they respect social distancing during all lunch and break times.

Catering

The school canteen will not be open to pupils for a period of time (at least the first two weeks of term). Therefore, ALL pupils will need to bring a packed lunch and drink to school. This also includes any pupils eligible for Free School Meals as direct bank payments for these pupils will continue for the time being. If your child arrives without a packed lunch then we will contact you in order to make appropriate arrangements. We will contact you in due course to update you on any changes to this situation.

Additionally, we would like to ensure that we have up-to-date contact details for all pupils. If any of this information has changed, can you please contact the school office on the following email address: swyddfa@ysgolystrade.org

Thank you again for your continued support.

Yours Sincerely,

Geoff Evans
Headteacher.